# DATGANIAD I'R WASG, 7 TACHWEDD 2025

**Cynllun "Hapus i Siarad" i gefnogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg gyda busnesau bach yn eu cymunedau**

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Mentrau Iaith yn falch o gyhoeddi lansiad ail rownd eu cynllun "Hapus i Siarad" ar gyfer 2025–26. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i ddysgwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu cymunedau mewn busnesau bach sy'n Hapus i Siarad.

Cafodd y syniad ei ysbrydoli gan gynllun o Gatalwnia lle mae 'Voluntariat per la Llengua' yn cynnal cynllun tebyg iawn yn llwyddiannus.

Ar 15 Tachwedd 2025, bydd dysgwyr yn cael taith dywys i ymweld â'r busnesau sy'n rhan o'r cynllun ar "Fore Hapus i Siarad" mewn naw tref ar draws Cymru i lansio ail rownd y cynllun eleni. Ond cynllun parhaus ydy Hapus i Siarad gafodd ei beilota yn ardaloedd Rhondda Cynon Taf, Fflint a Wrecsam, a Cheredigion, a'i lansio'n genedlaethol am y tro cyntaf llynedd. Medd Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, "Mae'r Ganolfan wrth eu boddau'n gweithio gyda Mentrau Iaith Cymru i roi cyfle i ddysgwyr roi eu sgiliau Cymraeg ar waith yn eu cymunedau. Mae hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ganolog i waith y Ganolfan."

Medd Daniela Schlick, Rheolwr Busnes a Phrosiectau gyda Mentrau Iaith Cymru: "Mae busnesau'n rhan bwysig o'n cymunedau a'n bywydau pob dydd ac felly'n yn fwy na llefydd i brynu pethau. Maen nhw'n llefydd i bobl gyfarfod ei gilydd, cael sgwrs a bod yn rhan o'r gymuned – lleoliadau gwych i ymarfer siarad Cymraeg."

Mae'r busnesau sy'n rhan o'r cynllun yn arddangos poster "Hapus i Siarad" yn eu ffenestri neu wrth y til i ddangos eu bod yn hapus i groesawu dysgwyr am sgwrs yn Gymraeg. Mae'r dysgwyr yn derbyn cerdyn teyrngarwch gan eu tiwtoriaid a'r Mentrau Iaith leol i gasglu stamp neu lofnod gan dri busnes lle maent wedi cael sgwrs yn Gymraeg. Bydd y cardiau yn mynd i mewn i gystadleuaeth am benwythnos preswyl yn un o'r canolfannau Cymraeg yng Nghymru. O'r holl gardiau sy'n cael eu cyflwyno bydd enw'r enillydd yn cael ei dynnu o'r het mewn digwyddiad ar 3 Awst yn ystod Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Glas.

Bydd Bore Hapus i Siarad ar 15 Tachwedd yn y naw tref yma: Porthmadog, Dinbych, Llanbedr Pont Steffan, Trefdraeth, Pontardawe, Porthcawl, y Bont-faen, Pontcanna, a'r Fenni.

Fel rhan o'r gwaith paratoi ym Mro Morgannwg bu disgyblion Ysgol Iolo Morganwg yn ymweld â siopau lleol i weld pa fusnesau sy'n darparu gwasanaethau Cymraeg neu sydd â staff sy'n medru'r Gymraeg. O ganlyniad rydym yn falch i gyhoeddi map syn dangos bod yn agos at 25 o lefydd yn gwneud hynny.

Mae croeso i ddysgwyr Cymraeg o bob lefel ymuno â helfa drysor bach o amgylch y Bont-faen wrth grwydro busnesau'r dref sy'n "Hapus i Siarad Cymraeg" yng nghwmni staff Menter Bro Morgannwg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd y cyfan yn dechrau am 10yb yn 96 Degrees ar fore Sadwrn 15fed o Dachwedd ac yn gorffen yno diwedd y bore dros baned a sgwrs anffurfiol.

Cofrestru ar gyfer y daith yn Y Bontfaen – https://menterbromorgannwg.cymru/event/taith-busnesaur-bontfaen-diwrnod-hapus-i-siarad-i-ddysgwyr-cy

## DIWEDD